

Pwy fydd yn darparu'r cwrs hwn?

Bydd y cwrs hwn yn cael ei ddarparu gan Goleg Meirion-Dwyfor yn Nolgellau a Phwllheli.

Beth fyddai'n ddysgu?

Gan ddibynnu ar y dewis o unedau, bydd y cwrs hwn yn dy helpu i:

- Ddatblygu sgiliau ymchwil sylfaenol, sy'n gosod sylfaen i bob math o gynhyrchu cyfryngol;
- Deall sut mae gwahanol gynnyrch cyfryngol yn cael eu rhoi at ei gilydd ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd neu farchnadoedd;
- Datblygu dy 'iaith weledol' drwy waith prosiect ymarferol;
- Feddwl sut y byddi'n datblygu dy sgiliau a gwybodaeth trwy ystyried pa gyrsiau alllet ti wneud nesaf.

Sut fyddai'n dysgu?

Byddi'n cael dy ddysgu gan ddarlithwyr profiadol. Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau dosbarth ac ymarferol. Byddi'n cael cyfle i baratoi ac ymarfer dy sgiliau cyn i ti gael dy asesu fel dy fod yn gwybod ac yn deall beth sy'n rhaid i ti ei wneud.

Sut fyddai'n cael fy asesu?

Byddi'n paratoi gwaith cwrs ac aseiniadau fydd yn cael eu hasesu gan dy diwtor cwrs. Ni fydd raid i ti sefyll arholiad ar y cwrs hwn.

Beth fydd yn digwydd ar ôl y cwrs yma?

Ar ôl Blwyddyn 11, gelli ddal ati i orffen Diploma Cyntaf BTEC Lefel 2 neu symud ymlaen i Ddiploma Cenedlaethol BTEC ar Lefel 3. Ar ôl hynny, bydd gennynt ystod eang o sgiliau a ellir eu trosglwyddo i waith, neu mi elli fynd ymlaen ymhén amser i astudio yn addysg uwch, neu fynd ymlaen i hyfforddiant lefel uwch o fewn y diwydiant.

Ond, os nad wyt ti awydd dal ati gyda chyfryngau, mi alllet ti ddewis cwrs arall addas, gan ddibynnu beth hoffet ti wneud nesaf. Bydd dy gynghorydd gyrfa yn gallu dy helpu i wneud dy ddewis pan fyddi di'n gadael yr ysgol.

Syniadau am swyddi.

- Cynhyrchu Clyweledol
- Cynhyrchu Hysbysebion
- Gwaith Graffeg Ddigidol
- Datblygu Gemau Cyfrifiadurol
-

Am fwy o wybodaeth?

Ceir mwy o wybodaeth am y cwrs hwn ar y wefan isod:

<http://www.edexcel.com/quals/firsts10/media/Pages/default.aspx>

neu ar wefan Gyrfa Cymru: www.careerswales.com